

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn
Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf)
(Gwaharddiadau Traffig Dros Dro)
2023

The A470 Trunk Road
(Northbound Entry Slip Road at
Taffs Well, Rhondda Cynon Taf)
(Temporary Traffic Prohibitions)
Order 2023

Gwnaed 2 Mai 2023

Made 2 May 2023

Yn dod i rym 5 Mai 2023

Coming into force 5 May 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi neu oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Cardiff to Llangurig trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road or by reason of the likelihood of danger to the public arising from the transportation of abnormal indivisible loads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mai 2023.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2023 and this Order comes into force on 5 May 2023.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio i gludo llwythi anwahanadwy annormal i ddepo Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf;

ystyr “cyfnod y cludo” (“*transportation period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 5 Mai 2023 ac sy’n dod i ben pan fo’r gwaith o symud yr holl lwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 5 Mai 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o ffordd ymuno tua’r gogledd cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n 2.85 metr o led neu’n lletach, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Dirymu

6. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua’r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2022(1) a Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua’r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023(2) wedi eu dirymu.

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used for the transportation of abnormal indivisible loads to the Transport for Wales depot at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the northbound entry slip road of the A470 Cardiff to Llangurig trunk road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf;

“transportation period” (“*cyfnod y cludo*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 5 May 2023 and ending when the movement of all the abnormal indivisible loads has been completed;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 22:00 hours on 5 May 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 2.85 metres, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may, during the transportation period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Revocation

6. The A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Wide Vehicles) Order 2022(1) and the A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023(2) are revoked.

(1) O.S. 2022/650 (Cy. 143).

(2) O.S. 2023/1 (Cy. 1).

(1) S.I. 2022/650 (W. 143).

(2) S.I. 2023/1 (W. 1).

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Mai 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 May 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government